Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru Love
Ceredigion

# Cyngor Sir Ceredigion

# Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd (CRhGP)



| Dyddiad | Awdur |
|---|---|
| 16 IONAWR 2024 | Owen Morgan – Rheolwr yr Harbyrau, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol |
| | |
| | |
| | |

06.02.2024

MCA Maritime & Coastguard Agency Survey and Inspection

CYNNWYS

**1.0 Cyflwyniad**

**2.0 Cyd-destun**

**3.0 Cefndir**

**4.0 Amcanion Rheoli**

**5.0 Datblygu, Ymgynghori a Cymeradwyo'r CRhGP**

- **5.1** Datblygu'r CRhGP
- **5.2** Ymgynghori ar y CRhGP

**6.0 Cael y ddogfen CRhGP**

**7.0 Tîm y Gwasanaethau Harbyrau**

- **7.1** Gweithredu ac Adolygu'r CRhGP
- **7.2** Cysylltu â Thîm yr Harbyrau

**8.0 Harbyrau Ceredigion**

**9.0 Trefniadau CRhGP**

- **9.1** Mathau o Gyfleusterau
- **9.2** Trefniadau ar y Safle
- **9.3** Diwrnodau Casglu Gwastraff
- **9.4** Casglu Sbwriel a Glendid Cyffredinol
- **9.5** Trefniadau Oddi ar y Safle
  - 9.5.1 Defnyddwyr Hamdden yr Harbyrau
  - 9.5.2 Defnyddwyr Masnachol yr Harbyrau
  - 9.5.3 Meintiau a Mathau o Gwastraff

**10.0 Adolygu'r Cyfleusterau**

**11.0 Diffyg Cydymffurfiaeth Cychod**

**12.0 Cyfathrebu**

- **12.1** Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion

**Atodiad A –** Mapiau yn dangos lleoliad cyfleusterau gwastraff harbwr

## 1.0 Cyflwyniad

Cyngor Sir Ceredigion (CSC) yw'r Awdurdod Harbwr Statudol ar gyfer y canlynol:

- Harbwr Aberaeron
- Harbwr Aberystwyth
- Harbwr Ceinewydd

Mae gan bob un o'r harbyrau eu nodweddion a'u proffil unigryw eu hunain. Cânt eu defnyddio'n bennaf gan gychod hamdden gyda fflyd fach o gychod pysgota masnachol a darparwyr teithiau pleser.

Mae nifer y cychod sy'n ymweld, cychod hamdden a masnachol, yn isel.

Mae cwmpas y cynllun hwn yn cynnwys cyfleusterau a weithredir ac a gynhelir gan y Cyngor ac nid yw'n cynnwys cyfleusterau preifat megis Marina Aberystwyth.

## 2.0 Cyd-destun

Mae Ceredigion yn sir wledig fawr yng nghanolbarth gorllewin Cymru sy'n elwa'n bennaf o leoliadau gwledig ac arfordirol.

Mae ansawdd uchel yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yn bwysig iawn o sawl persbectif ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan drigolion lleol ac ymwelwyr. Mae twristiaeth ac amaethyddiaeth yn nodweddion allweddol o'r economi leol. Adlewyrchir hyn, ar y cyfan, gan y cyhoedd sy'n rheoli ac yn cael gwared ar wastraff sy'n codi ym mhob sefyllfa mewn ffordd gyfrifol a chyfreithlon. Ceir tystiolaeth o hyn gan fod Ceredigion yn gyson ymhlith yr ardaloedd awdurdod lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran mesurau allweddol gan gynnwys:

- Perfformiad ailgylchu
- Arolygon Rheoli Archwiliad Amgylchedd Lleol (LEAMS)
- Tipio anghyfreithlon
- Ansawdd aer

## 3.0 Cefndir

Yn hanesyddol mae'r trefniadau rheoli gwastraff yn yr harbyrau a reolir gan CSC wedi adlewyrchu natur, maint a lefel gweithgaredd yr harbyrau. Ystyrir eu bod yn briodol yn hyn o beth ac nid yw unrhyw faterion hysbys wedi codi. Yn y cyd-destun hwn mae CSC yn awyddus iawn i gadw a chynnal y sefyllfa hon yn y dyfodol.

Mae swm y gwastraff a gynhyrchir gan Awdurdod yr Harbyrau wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau yn fach iawn ac yn gyfyngedig i'r hyn a gynhyrchir yn y Swyddfeydd Harbwr yn yr harbyrau eu hunain.

Mae Awdurdod yr Harbyrau yn cydnabod bod ganddo rôl a chyfrifoldebau i gefnogi defnyddwyr yr harbyrau i gyflawni eu hymrwymiadau o ran delio â'r gwastraff a gynhyrchir ganddynt a'i waredu mewn modd cyfrifol a chyfreithlon.

Mae Awdurdod yr Harbyrau yn awyddus i weithio gyda rhanddeiliaid eraill sydd hefyd â rôl i'w chwarae i sicrhau cydymffurfiaeth yn ymwneud ag unrhyw faterion gwastraff sy'n codi yn ei harbyrau.

Rheolir pob agwedd ar harbyrau Ceredigion yn unol â'r fersiwn cyfredol o Bolisi Rheoli Harbyrau Ceredigion sydd i'w weld yn:

Yr Arfordir a Harbyrau – Cyngor Sir Ceredigion

Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddisgwyliadau a chyfrifoldebau rheoli gwastraff.

Mae CSC yn ymwybodol o'r angen i ystyried a chydbwyso, mewn perthynas â rheoli gwastraff, ddisgwyliadau rhanddeiliaid amrywiol a allai fod â disgwyliadau gwahanol ac a allai wrthdaro â'i gilydd sydd heb eu halinio. Bydd y rhain yn ymwneud â, ond heb fod yn gyfyngedig i, faterion cydymffurfio a costau.

**4.0 Amcanion Rheoli**

Yr amcan rheoli cyffredinol yw cefnogi defnyddwyr yr harbyrau gydag atebion rheoli gwastraff sy'n:

- Priodol
- Cydymffurfio
- Effeithlon
- Effeithiol
- Cynaliadwy

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:

- Datblygu, adolygu a gweithredu'r Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd (CRhGP).
- Cyflawni dyletswyddau cyfreithiol CSC fel Awdurdod yr Harbyrau o ran rheoli gwastraff yn unol ag OS 2003/1809 Rheoliadau Llongau Masnach a Llongau (Cyfleusterau Derbyn Gwastraff Porthladdoedd) 2003.
- Ceisio lleihau cynhyrchu gwastraff o'r harbyrau.

MCA Maritime & Coastguard Agency Survey and Inspection

- Hyrwyddo ailddefnyddio a/neu ailgylchu gwastraff lle bynnag y bo'n bosibl.

- Sicrhau bod defnyddwyr yr harbyrau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli'r gwastraff y maent yn ei gynhyrchu trwy ddarparu arweiniad a chyfeirio.

- Cyfeirio defnyddwyr yr harbyrau at gyfleusterau a gwasanaethau sy'n eu helpu i ddelio â'u gwastraff mewn modd cyfrifol, cyfreithlon ac effeithlon.

- Mabwysiadu dull gwerth ychwanegol ar gyfer darparu cyfleusterau gwastraff yn yr harbyrau. Mae hyn yn golygu darparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn alinio, yn hytrach na dyblygu, y rhai sydd eisoes ar gael ac nad ydynt yn creu risgiau diangen o ran:

    - **Iechyd a diogelwch:** gall cyfleusterau rheoli gwastraff achosi risgiau iechyd a diogelwch sy'n cynnwys bod yn beryglon tân posibl.
    - **Amgylcheddol:** posibilrwydd ar gyfer camddefnydd sy'n cynnwys denu tipio anghyfreithlon.
    - **Cydymffurfiaeth:** mae cyfleusterau rheoli gwastraff yn destun gofynion llym o ran trwyddedu a rhoi caniatâd.
    - **Costau:** byddai'n rhaid adennill unrhyw gostau ychwanegol sy'n codi oddi wrth ddefnyddwyr yr harbyrau trwy ffioedd harbwr uwch neu ffioedd harbwr newydd.

## 5.0 Datblygu, Ymgynghori a Cymeradwyo'r CRhGP

### 5.1 Datblygu'r CRhGP

Mae ymgynghoriad ar faterion rheoli gwastraff yn yr harbyrau a weithredir gan CSC wedi cael ei gynnal ac yn parhau trwy gyfrwng deialog rhwng y Tîm Rheoli Harbyrau a defnyddwyr yr harbyrau.

Oherwydd maint cymharol fach yr harbyrau a weithredir gan CSC mae'n bosibl i'r Tîm Rheoli Harbyrau gynnal perthynas agos ac iach gyda holl ddefnyddwyr yr harbyrau. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran dylanwadu ar y dull a fabwysiadwyd gan CSC mewn perthynas â rheoli gwastraff yn ei harbyrau ac wedi hynny, datblygu, adolygu a gweithredu'r CRhGP.

### 5.2 Ymgynghori ar y CRhGP

Mae ymgynghoriad mwy ffurfiol yn digwydd trwy Bwyllgorau Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau, sy'n cwrdd dwywaith y flwyddyn. Mae'r Pwyllgorau hyn yn gyrff a sefydlwyd yn ffurfiol i gynghori'r Cyngor Sir ar yr holl faterion sy'n ymwneud â'r harbwr. Mae Pwyllgor Defnyddwyr yr Harbyrau penodol ar gyfer pob un o'r tri harbwr. Mae'r Pwyllgorau'n cael eu cadeirio gan yr Aelod Cabinet

sydd â chyfrifoldeb dros harbyrau.

Mae'r Pwyllgorau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o glybiau hwylio lleol, pysgotwyr cofrestredig, perchnogion cychod masnachol trwyddedig, deiliaid angorfeydd, yr RNLI, y Siambr Fasnach, Aelodau Lleol ac aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned perthnasol. Yn hanesyddol mae'r cyfarfodydd wedi cael eu cynnal cyn ac ar ôl prif dymor yr haf ym mis Mawrth a mis Hydref bob blwyddyn.

Bydd y CRhGP yn cael ei gynnwys fel eitem agenda ym mhob cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr yr harbyrau godi unrhyw faterion neu bryderon ynghylch trefniadau gwastraff porthladdoedd. Cedwir cofnod o'r cyfarfodydd pwyllgor i sicrhau bod unrhyw gamau y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu arnynt.

Rhoddir rhybudd ymlaen llaw i randdeiliaid am gyfarfodydd a chânt gyfle i godi unrhyw eitemau i'w trafod. Fodd bynnag, anogir rhanddeiliaid hefyd i ymgysylltu ag Awdurdod yr Harbyrau yn barhaus naill ai'n uniongyrchol trwy'r Tîm Rheoli'r Harbyrau yn yr harbyrau neu trwy Clic, sef rhyngwyneb cwsmeriaid corfforaethol y Cyngor. Mae hyn er mwyn i unrhyw faterion sy'n codi gael eu hystyried a chael sylw cyn gynted ac mor hwylus â phosibl. Bydd Rheolwr yr Harbyrau yn cynnwys cyfeiriad yn ei adroddiad at Bwyllgorau Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n codi yn ymwneud â'r CRhGP.
Mae'r CRhGP yn destun adolygiad parhaus ac yn adlewyrchu profiad a mewnbwn gan randdeiliaid allweddol gan gynnwys defnyddwyr yr harbyrau, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

**6.0 Cael y ddogfen CRhGP**

Yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg CSC bydd y CRhGP ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gan gydymffurfio ag amcanion rheoli'r CRhGP caiff y ddogfen ei dosbarthu'n bennaf a bydd ar gael yn bennaf trwy ddulliau electronig. Bydd hyn yn cynnwys:

- cael ei chyhoeddi ar wefan CSC
- cyfeirio'n rhagweithiol ati wrth gyfathrebu â defnyddwyr yr harbyrau (adnewyddu angorfeydd, cyhoeddiadau Harbwr Diogel ac ati)

Bydd copïau caled o'r ddogfen ar gael i'w darllen yn Swyddfeydd yr Harbyrau. Yn ogystal â bod yn ddull amgylcheddol ac economaidd gadarn, bydd yn golygu y gall y CRhGP gael ei ddiweddaru a pharhau'n gyfredol ar y wefan bob amser. Bydd rhanddeiliaid wedi cymryd rhan ac wedi cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r CRhGP cyn iddynt gael eu gweithredu.

https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/yr-arfordir-a-phorthladdoedd/

## 7.0 Tîm y Gwasanaethau Harbyrau

Rheolir gweithgareddau pob un o'r harbyrau gan Reolwr yr Harbyrau, Arweinydd Gwaith yr Harbyrau, a'r Cynorthwywyr Harbyrau Tymhorol sy'n gweithredu ar ran y Cyngor.

### 7.1 Gweithredu ac Adolygu'r CRhGP

Mae Rheolwr yr Harbyrau yn gyfrifol am weithredu ac adolygu'r CRhGP. Mae Arweinydd Gwaith yr Harbyrau a'r Cynorthwywyr yn gyfrifol am gydymffurfiaeth weithredol o ddydd i ddydd â'r Cynllun.

### 7.2 Cysylltu â Thîm yr Harbyrau

Gellir cysylltu â Thîm yr Harbyrau drwy:
Ymweld â Swyddfeydd yr Harbyrau (oriau yn amodol ar argaeledd staff)
Aberystwyth
Cyfeiriad: Swyddfa Harbwr Aberystwyth, Harbwr Aberystwyth, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1JX

Aberaeron
Cyfeiriad: Swyddfa Harbwr Aberaeron, Harbwr Aberaeron, Traeth y De, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0BE

Ceinewydd
Cyfeiriad: Swyddfa Harbwr Ceinewydd, Harbwr Ceinewydd, Y Pier, Ceinewydd, Ceredigion, SA45 9NW

Manylion cysylltu:

Ebost: clic@ceredigion.gov.uk
Ffôn: 01545 570881
Post: Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol,
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE.

Rhifau argyfwng y tu allan i oriau CSC yw 01970 625277 neu 01239 851604.

## 8.0 Harbyrau Ceredigion

Mae tri phorthladd bach yn gweithredu, pob un â'i harbwr naturiol neu adeiledig ei hun, ac mae'r rhain wedi'u lleoli yn Aberystwyth i'r gogledd, Aberaeron yn y

man canol a Cheinewydd i'r de. Mae gan bob un o'r porthladdoedd hyn nifer o gychod sy'n gysylltiedig â'r diwydiant pysgota a chychod teithwyr lleol ond mae cyfran uwch o'r cychod yn gychod hamdden fel y dangosir isod.

Nid yw nifer y cychod ym mhob cyfleuster wedi newid yn sylweddol ers sawl blwyddyn, ac ni ddisgwylir i hyn newid yn y dyfodol agos. Mae'r ffigurau isod wedi'u cymryd o 21 Medi 2023 (haf).

Ar hyn o bryd mae'r harbyrau yn darparu ar gyfer y cychod canlynol gyda'r cyfleusterau sy'n bodoli:

| Harbwr | Pysgota | Teithwyr / Siarter | Hamdden | Lanswyr |
|---|---|---|---|---|
| **Aberystwyth** | **9** | **0** | **77** | **<10** |
| **Aberaeron** | **0** | **3** | **89** | **<10** |
| **Ceinewydd** | **6** | **10** | **156** | **<10** |

Mae nifer y cychod sy'n ymweld â'r harbyrau ar gyfartaledd bob blwyddyn fel a ganlyn:

| Harbwr | Cychod sy'n Ymweld |
|---|---|
| **Aberystwyth** | **<10** |
| **Aberaeron** | **<10** |
| **Ceinewydd** | **<10** |

Mae nifer y cychod ym mhob harbwr yn lleihau'n sylweddol yn ystod tymor y gaeaf oherwydd eu bod yn cael eu codi allan o'r dŵr.

Mae'r gofynion ar gyfer llongau sy'n dymuno defnyddio'r cyfleusterau wedi'u nodi yn Adran 3 o MGN 563 sydd i'w gweld trwy ddilyn y ddolen isod:

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5f087d633a6f405a123d45ff/MGN_563_Amendment_1_R0720.pdf

## 9.0 Trefniadau CRhGP

### 9.1 Mathau o Gyfleusterau

Mae'r gofynion ar gyfer gwaredu gwastraff o gychod yn adlewyrchu maint yr harbwr a nifer y cychod, fel a ganlyn:

### 9.2 Trefniadau ar y Safle

Mae'r prif gyfleusterau yn yr harbyrau fel a ganlyn:

MCA Maritime & Coastguard Agency Survey and Inspection

| **Harbwr** | **Cyfleusterau ar gyfer gwastraff domestig cyffredinol a sbwriel** | **Capasiti mwyaf** |
|---|---|---|
| **Aberystwyth** | Biniau Sbwriel Cyhoeddus<br><br>Batris<br>Hidlwyr Olew<br>Gwastraff Cyffredinol<br>Deunyddiau Ailgylchadwy (gan gynnwys metelau, papur, cerdyn, plastigion) | 90L – 1100L (yn dibynnu ar y lleoliad a'r cyfleusterau)<br>1400L<br>205L<br>1280L<br>1280L |
| **Aberaeron** | Biniau Sbwriel Cyhoeddus<br><br>Batris<br>Hidlwyr Olew<br>Gwastraff Cyffredinol<br>Deunyddiau Ailgylchadwy (gan gynnwys metelau, papur, cerdyn, plastigion) | 90L – 140L (yn dibynnu ar y lleoliad a'r cyfleusterau)<br><br>1400L<br>205L<br>1280L<br>1280L |
| **Ceinewydd** | Biniau Sbwriel Cyhoeddus<br><br>Batris<br>Hidlwyr Olew<br>Gwastraff Cyffredinol<br>Deunyddiau Ailgylchadwy (gan gynnwys metelau, papur, cerdyn, plastigion) | 90L – 140L (yn dibynnu ar y lleoliad a'r cyfleusterau)<br>1400L<br>205L<br>1280L<br>1280L |

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwaredu gwastraff arlwyo rhyngwladol o wastraff o'r fath yn unol â'r canllawiau a ddarperir trwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.gov.uk/guidance/handling-and-disposing-of-international-catering-waste

Mae'n ofynnol i ddefnyddwyr yr harbyrau ddadlwytho'r holl wastraff (ac eithrio carthffosiaeth) i gyfleusterau ar y tir.

Er bod cyfleusterau cyhoeddus yn agos at y tri phorthladd yng Ngheredigion nid yw'r rhain yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer gwastraff carthion ac ni ddylid eu defnyddio at y diben hwn. Mae'n ofynnol i bob perchennog cwch gael gwared ar eu gwastraff carthion trwy ddefnyddio cyfleusterau priodol.

Mae mapiau sy'n dangos lleoliad y cyfleusterau uchod ym mhob harbwr i'w gweld yn Atodiad A.

Mae'r cyfleusterau uchod ar gael yn rhad ac am ddim pan gânt eu defnyddio i

MCA Maritime & Coastguard Agency Survey and Inspection

ddefnyddwyr hamdden yr harbyrau, gyda chostau cyfleusterau o'r fath yn rhan o wariant cyffredinol cyllideb yr harbyrau. Anogir defnyddwyr hamdden yr harbyrau i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn.

Mae'r cyfleusterau ar gael i holl ddefnyddwyr hamdden yr harbyrau trwy gysylltu â Thîm Gwasanaethau'r Harbyrau. Dylai cychod sy'n ymweld hefyd gysylltu â Thîm Gwasanaethau'r Harbyrau. Ni ellir rhoi mynediad i'r cyfleusterau heb fod staff yr harbwr yn bresennol a bydd y cyfleusterau dan glo bob amser er mwyn atal camddefnyddio'r cyfleusterau.

Mae'r trefniadau hyn yn destun adolygiad a byddant yn cael eu cadw dim ond os bernir, at ei gilydd, eu bod yn darparu budd net o'i gymharu â'r llinell sylfaen flaenorol lle nad oedd unrhyw faterion hysbys yn codi.

Mae'r arwyddion canlynol i'w gweld ym mhob un o'r cyfleusterau:



MCA Maritime & Coastguard Agency Survey and Inspection

### 9.3 Diwrnodau Casglu Gwastraff

Mae 'Diwrnodau Casglu Gwastraff' yn cael eu neilltuo yn ôl yr angen i hwyluso gwaredu gwastraff sy'n deillio o lanhau cychod ar ddechrau a diwedd y tymor. Mae gweithredwr gwastraff cofrestredig yn cael ei benodi i ddarparu'r gwasanaeth. Bwriedir i Ddiwrnodau Casglu Gwastraff fod yn barhaus fel a phryd y bo angen.

### 9.4 Casglu Sbwriel a Glendid Cyffredinol

- Gwneir trefniadau i gasglu sbwriel yn ardaloedd yr harbyrau yn rheolaidd.

- Mae cynnal gwiriadau rheolaidd am weddillion, sbwriel, carcasau, sylweddau peryglus neu wrthrychau ar ystad yr harbyrau yn rhan o weithgareddau dyddiol Tîm yr Harbyrau.

- Fel rhan o gynllun ehangach Caru Ceredigion anogir yr holl randdeiliaid i chwarae rhan gadarnhaol a rhagweithiol wrth gadw'r harbyrau a'r sir yn lân yn fwy cyffredinol.

### 9.5 Trefniadau Oddi ar y Safle

#### 9.5.1 Defnyddwyr Hamdden yr Harbyrau

Mae CSC yn gweithredu'r Safleoedd Gwastraff Cartref canlynol

**Aberystwyth**
Stad Ddiwydiannol Glanyrafon, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3JQ.

**Aberteifi**
Cilmaenllwyd, Penparc, Cardigan. SA43 1RB.

**Llanbedr Pont Steffan**
Stad Ddiwydiannol, Ffordd Tregaron, Llanbedr Pont Steffan. SA48 8LT.

**Llanarth**
Rhydeinon, Llanarth. SA47 0QP.

MCA Maritime & Coastguard Agency Survey and Inspection

Mae'r rhain ar gael i'w defnyddio yn rhad ac am ddim at ddibenion domestig a fyddai'n cynnwys gan ddefnyddwyr hamdden yr harbyrau yn dilyn rheolau'r safle sy'n cynnwys y mathau o wastraff a dderbynnir a'r cerbydau a ganiateir.

Mae rhagor o fanylion gan gynnwys oriau agor, rheolau'r safle a'r mathau o wastraff a dderbynnir i'w gweld yn:
[Safleoedd Gwastraff Cartref ac Ailgylchu – Cyngor Sir Ceredigion]

### 9.5.2 Defnyddwyr Masnachol yr Harbyrau

Mae nifer o gwmnïau'n darparu gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer cynhyrchwyr gwastraff masnachol yng Ngheredigion a fyddai'n cynnwys defnyddwyr masnachol yr harbyrau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau casglu a gwaredu yn ogystal â chyfleusterau gorsaf drosglwyddo sy'n bodloni orau gofynion a chyfrifoldebau defnyddwyr masnachol yr harbyrau. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hwyluso, eu gwneud, a'u talu amdanynt gan ddefnyddwyr masnachol yr harbyrau fel cynhyrchwyr gwastraff masnachol. Mae cydymffurfiaeth mewn perthynas â materion megis nodiadau trosglwyddo yn gyfrifoldeb cynhyrchwyr gwastraff.

### 9.5.3 Meintiau a Mathau o Wastraff

Nodir swm y gwastraff cyffredinol a gynhyrchir yn y porthladdoedd yn y tablau isod ac mae'n amcangyfrif yn seiliedig ar y cofnodion o nifer y cychod sy'n defnyddio'r cyfleusterau. Caiff data ei gasglu ar feintiau pob math o wastraff a dderbynnir ac a waredir trwy gyfleusterau CRhGP yn y dyfodol.

| Harbwr | Gwastraff domestig cyffredinol (tunelli) |
|---|---|
| Aberaeron | 7.75 |
| Aberystwyth | 27.00 |
| Ceinewydd | 16.25 |

Dylid cadw unrhyw wastraff sydd heb ei gynnwys o dan y CRhGP ar y cwch hyd nes y gellir gwneud trefniadau diogel a chyfreithlon i'w waredu.

Cyfrifoldeb yr holl gynhyrchwyr gwastraff fydd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau mewn perthynas â gwaredu a chynnal cofnodion sy'n ymwneud â hyn, yn ogystal ag adrodd ar faterion i'r asiantaeth statudol berthnasol.

## 10.0 Adolygu'r Cyfleusterau

Ystyrir bod y cyfleusterau a amlinellir yn y CRhGP ym mhob un o'r

porthladdoedd yn ddigonol i ymdopi â nifer y cychod sy'n defnyddio harbyrau Ceredigion ar hyn o bryd.

Bydd y sefyllfa gyffredinol yn cael ei monitro'n flynyddol i asesu'r tueddiadau a'r gofynion. Yn ogystal â hyn, gellir ychwanegu cynwysyddion ychwanegol ar unrhyw adeg mewn argyfwng neu mewn amgylchiadau anarferol sy'n cynnwys digwyddiadau.

Disgwylir i holl ddefnyddwyr yr harbyrau ddelio â'u gwastraff mewn modd cyfrifol a chyfreithlon fel y cyfeirir ato yn y Polisi Rheoli Harbyrau. Mae Awdurdod yr Harbyrau yn cynghori ac yn cefnogi cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn cyn belled ag y bo'n rhesymol ac yn ymarferol briodol.

Os bydd Meistr llong â baner y DU yn credu bod cyfleusterau o'r fath yn annigonol, gallai'r Meistr gysylltu â'r MCA (yn unol â'r weithdrefn a nodir yn MGN 563) i drafod hyn trwy:

PWR Inadequacies,
Clean Ship Operations Team,
Maritime and Coastguard Agency,
Spring Place,
105 Commercial Road,
Southampton, SO15 1EG.
Ebost: environment@mcga.gov.uk

## 11.0 Diffyg Cydymffurfiaeth Cychod

Rhaid i holl ddefnyddwyr yr harbyrau gydymffurfio â'r CRhGP hwn. Dylid cyfeirio manylion a thystiolaeth o ddiffyg cydymffurfiaeth cychod at Reolwr yr Harbyrau a fydd yn ceisio datrys y diffyg cydymffurfiaeth â Meistr y llong. Os na fydd y diffyg cydymffurfio yn cael ei ddatrys, bydd Rheolwr yr Harbyrau yn hysbysu Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau.

Gallai Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau dargedu cychod o'r fath i'w harchwilio. Caiff Meistri a pherchenogion cychod sy'n methu â chydymffurfio â'r gofynion fod yn euog o drosedd a thalu dirwy os caiff euogfarn ddiannod fel y darperir ar ei chyfer yn rheoliadau 18(2), (3) a (4) o Reoliadau 2003 fel y'u diwygiwyd.

Caiff diffyg cydymffurfiaeth cychod ei adrodd i:

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau,
Swyddfa Forol Caerdydd,
Anchor Court,
Keen Road
CF24 5JW

Rhif Ffôn: 0203 9085220
Ebost: cardiffmo@mcga.gov.uk

**12.0 Cyfathrebu**

Mae gwybodaeth gyffredinol am yr arfordir a'r harbyrau ar gael ar wefan y Cyngor yn: https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/yr-arfordir-a-phorthladdoedd/. Mae'r wybodaeth yn cynnwys Cynllun Rheoli Harbyrau Ceredigion, tablau llanw a manylion cysylltu y cyrff perthnasol yn ogystal â chopi o'r CRhGP.


**12.1 Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion**

Rheolir sylwadau, canmoliaeth a chwynion gan ddefnyddwyr yr harbyrau yn unol â Siarter Cwsmeriaid y Cyngor.


Rheolir cwynion trwy Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor.

Ceir manylion trwy ddilyn y ddolen ganlynol:
https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/sylwadau-canmoliaeth-a-chwynion/

**Atodiad A –** Mapiau yn dangos lleoliad cyfleusterau gwastraff harbwr:



MCA
Maritime & Coastguard Agency
Survey and Inspection




**Harbwr Ceinewydd**

Allwedd:

◯ Lleoliad cyfleusterau gwastraff

MCA
Maritime & Coastguard Agency
Survey and inspection

**Harbwr Aberystwyth**

Allwedd:

◯ Lleoliad cyfleusterau gwastraff

